**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU**
**PEN-Y-BONT AR OGWR, TAF AC ELÁI 2017**

Eisteddfod

## Beth yw Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru ?

Yr Eisteddfod yw prifwyl mudiad yr Urdd a'r ŵyl ieuenctid teithiol fwyaf yn Ewrop. Mae aelodau'r Urdd yn cystadlu mewn 400 o gystadlaethau mewn meysydd amrywiol iawn o ganu, dawnsio, llefaru, cerdd dant, celf a chrefft, technoleg, gwyddoniaeth coginio a llenyddiaeth, gan ddechrau yn yr Eisteddfodau Cylch lleol.

Ar ôl ennill yn y Cylch, mae'r enillwyr yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir, a'r enillwyr yno yn mynd ymlaen i'r Genedlaethol. Nid oes angen gwybodaeth o'r Gymraeg er mwyn cystadlu mewn amryw o'r cystadlaethau ac mae nifer o gystadlaethau arbennig ar gyfer dysgwyr mewn rhai adrannau.

Disgwylir hyd at 100,000 o ymwelwyr i ymweld â'r Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd  a 15,000 o gystadleuwyr. Mae plant ac ieuenctid Cymru a thu hwnt yn elwa llawer o gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd trwy gystadlu yn y cylch, rhanbarth ac yna yn y genedlaethol.

## Ym mhle cynhelir yr ŵyl ?

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd mewn lleoliad gwahanol pob blwyddyn yn cylchdroi rhwng y gogledd a'r de, ac yn 2017 Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái sy'n croesawu'r Ŵyl. Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont yw'r awdurdod sy'n gwahodd yr ŵyl.

## A fydd rhywun o'ch ardal chi yn elwa ?

Mae aelodau'r Urdd o bob ardal yng Nghymru yn cystadlu yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mae gan yr Urdd ganghennau mewn pentrefi, trefi ac ysgolion ar draws Gymru ac mae rhan fwyaf ohonynt yn cystadlu mewn amryw o'r cystadlaethau. Mae Eisteddfod yr Urdd yn agored i holl aelodau'r Urdd gystadlu, ac fe fydd amryw o blant eich ardal chi yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

## Beth yw'r Urdd ?

Nod Urdd Gobaith Cymru yw sicrhau cyfle, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg i holl ieuenctid Cymru (rhwng 8 a 25 oed) ddatblygu'n unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.  Cyflawnir hyn trwy'r ddelfryd o wasanaeth i Gymru, Cyd-ddyn a Christ.

Yr Urdd yw prif fudiad ieuenctid Cymru a sefydlwyd yn ôl yn 1922, gyda dros 50,000 o aelodau ar draws Cymru. Un elfen yn unig yw Eisteddfod yr Urdd a cheir tri gwersyll aml-weithgaredd yng Nglan-llyn, Llangrannog ac yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, dros 1,500 o ganghennau lleol mewn pentrefi, trefi a dinasoedd ardraws Cymru, a chynhyrchir tri chylchgrawn misol i Gymry Cymraeg a dysgwyr.

**A oes gwirfoddolwyr yn ymwneud â'r Eisteddfod ?**

Elusen wirfoddol gofrestredig yw'r Urdd. Mae wedi selio ar waith gwirfoddol ac yn ddibynnol ar wirfoddolwyr ar draws Cymru er mwyn cynnal digwyddiadau amrywiol i'r Urdd yn eu cymunedau. Nid yw Eisteddfod yr Urdd yn eithriad ac mae pob Eisteddfod o'r Cylch, Rhanbarth ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ei hun, yn ddibynnol ar wirfoddolwyr er mwyn trefnu a gweinyddu'r eisteddfodau a'r ŵyl genedlaethol.

**Pam fod angen cyfraniadau oddi wrth gynghorau ardraws Cymru ?**

Gan fod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ŵyl genedlaethol ac yn perthyn i bawb trwy Gymru gyfan, rydym yn apelio yn flynyddol am gefnogaeth o bob haen o lywodraeth leol. Byddwn yn defnyddio eich cyfraniadau i gynorthwyo i gynnal yr ŵyl yn gyffredinol, a byddwn ddiolchgar am unrhyw gyfraniad.

Mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn derbyn cyllid oddi wrth amryw o ffynonellau gwahanol - cyhoeddus a phreifat - gan gynnwys gwerthiant tocynnau, noddwyr, darlledu, ffioedd arddangoswyr a chodi arian yn lleol. Rydym yn cynnal amryw o weithgareddau yn nalgylch yr Eisteddfod er mwyn codi arian i gynnal yr ŵyl trwy gyfres o bwyllgorau apêl lleol.

Rydym wedi sefydlu rhwydwaith o bwyllgorau apêl lleol. Mae'r targed ariannol lleol yn elfen allweddol o'n cyllid gan ei fod yn cyfrannu tua 15% tuag at y gost o lwyfannu'r Eisteddfod.

**Partneriaeth**

Partneriaeth yw Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd rhwng sefydliadau a chyrff amrywiol. Mae'r Eisteddfod yn ddibynnol ar gefnogaeth ariannol gan unigolion, mudiadau, ysgolion, cyrff cyhoeddus a chynghorau trwy Gymru gyfan. Gyda chefnogaeth ein partneriaid yr ydym ym medru llwyddo i gynnal gŵyl ieuenctid mwyaf Ewrop.

Rydym yn awyddus i annog ysgolion o'r sectorau cyfrwng Cymraeg a Saesneg i gymryd rhan yn yr Eisteddfod ac i deimlo 'perchnogaeth' o'r ŵyl. Bydd amryw o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau codi ymwybyddiaeth a chodi arian cyn yr Eisteddfod.

Bydd Sioe Gynradd yn cael ei llwyfannu yn y Pafiliwn ar Faes yr Eisteddfod, a Sioe Uwchradd mewn theatr yn lleol, yn ogystal â nifer fawr o gyfleoedd i ddisgyblion ac ysgolion/colegau fod yn ran o'r ŵyl.

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Pen-y-Bont ar Ogwr, Taf ac Elái 2017**

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Pen-y-Bont ar Ogwr, Taf ac Elái 2017 ar dir Coleg Pen-y-bont, Campws Pencoed adeg hanner tymor y Sulgwyn 29 Mai - 03 Mehefin 2017. Bydd Cyngerdd Agoriadol, Sioe Uwchradd a Sioe Gynradd yn cymryd lle yn ystod yr wythnos.

Bydd tua 200 o arddangosfeydd yn llenwi Maes yr Eisteddfod gan gynnwys Pafiliwn Celf a Chrefft, Pentre Mistar Urdd, GwyddonLe a llawer iawn o weithgareddau ymylol yn cymryd lle.

Cynhelir yr Ŵyl Gyhoeddi o fewn y sir ar ddydd Sadwrn 15fed Hydref 2016. Bydd gorymdaith ac adloniant er mwyn dathlu'r ffaith bod yr Eisteddfod yn dod i Ben-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái.

**Sut y gweinyddir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ?**

Mae gan Eisteddfod yr Urdd dîm o staff llawn amser yn gweithio o swyddfa'r Eisteddfod yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn ger y Bala. Gweinyddir yr Eisteddfod gan gyfres o bwyllgorau lleol a chenedlaethol gyda chynrychiolwyr gwirfoddol o ardraws Cymru yn cael eu harolygu gan Fwrdd Eisteddfod a'r Celfyddydau a Chyngor Cenedlaethol yr Urdd.

**Aled Siôn - Cyfarwyddwr yr Eisteddfod**
**Morys Gruffydd - Trefnydd yr Eisteddfod**

**www.urdd.cymru/eisteddfod**